

GORCHYMYN DIOGELU MAN CYHOEDDUS CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
(Pennod 2)

Pont y Pair a'r ardal gyfagos – Betws-y-coed, Conwy

Cyf Arolwg Ordnans (AO): SH 795 566

Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel Gorchymyn Diogelu Man Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Pont y Pair, Betws-y-coed 2015.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor"), yn fodlon bod yr amodau a amlinellir yn Adran 59(2) Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("y Ddeddf") wedi eu bodloni mewn perthynas â'r ardal a ddynodwyd gan y map a atodwyd a elwir yn Pont y Pair, Betws-y-coed, Conwy, a bod y gweithgareddau a gyflawnir mewn man cyhoeddus yn ardal yr awdurdod wedi achosi troseddau, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Yn unol â hynny, mae'r gweithgareddau hyn wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal, a'r rhai sy'n ymweld â'r ardal fel lleoliad i dwristiaid, neu mae'n debygol y bydd y gweithgareddau yn cael eu cynnal yn yr ardal honno ac yn cael effaith o'r fath. Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn, gyson neu'n barhaus eu natur, a bod y gweithgareddau hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan yr hysbysiad hwn a'i bod yn fuddiol yn yr holl amgylchiadau i wneud y Gorchymyn hwn at y diben o leihau troseddu a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

Mae'r Cyngor, drwy arfer ei rymoedd o dan Adrannau 59, 63 a 72 y Ddeddf ac o dan bob grym galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn canlynol:

1. Gwaherddir sefyll ar, neu neidio oddi ar, barapet Pont y Pair
2. Gwaherddir neidio i mewn i'r pwll o dan ganol Pont y Pair o unrhyw bwynt mynediad
3. Gwaherddir nofio yn y pwll o dan Bont y Pair
4. Gwaherddir yfed alcohol yn yr ardal gyfyngedig

Mae'n drosedd i berson gymryd rhan mewn gweithgaredd a waherddir o dan baragraffau 1 i 3 y Gorchymyn hwn heb esgus rhesymol. Bydd person a geir ei fod yn torri paragraffau 1 i 3 y Gorchymyn hwn yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £100.

Mae'n drosedd i berson sy'n methu â chydymffurfio, heb esgus rhesymol, â gofyniad a osodir arno gan gwnstabl neu berson a awdurdodwyd (a) i beidio ag yfed, yn groes i baragraff 4 y Gorchymyn hwn, alcohol neu unrhyw beth y mae'r cwnstabl neu'r person a awdurdodwyd yn credu'n rhesymol ei fod alcohol neu (b) ildio unrhyw beth yn ei feddiant sydd, neu y mae'r cwnstabl neu'r unigolyn a awdurdodwyd yn credu yn rhesymol sydd yn, alcohol neu gynhwysydd ar gyfer alcohol. Mae person sy'n peidio â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd arno, heb esgus rhesymol yn cyflawni trosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £100.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Gorffennaf 2015 a bydd mewn grym am gyfnod o 3 blynedd ar ôl hynny, oni bai y caiff ei ymestyn gan Orchymnion pellach o dan rymoedd statudol y Cyngor.

Os bydd unrhyw un sydd â diddordeb yn gwneud cais i gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y grym i wneud y Gorchymyn neu i gynnwys unrhyw waharddiadau neu ofynion penodol a osodir gan y Gorchymyn hwn neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y Ddeddf, yna gall ef neu hi wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y gwneir y Gorchymyn.

Dyddiedig 30 Mehefin 2015



.....
Peter Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai)